

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil y Lluoedd Arfog

Mawrth 2021

1. Cefndir

Bil Lluoedd Arfog Llywodraeth y DU

1. Cafodd Bil y Lluoedd Arfog¹ ei gyflwyno gerbron Tŷ'r Cyffredin a chafodd ei ddarllenid cyntaf ar 26 Ionawr 2021. Fe'i noddir gan y Weinyddiaeth Amddiffyn.

2. Mae'r nodiadau esboniadol i'r Bil yn nodi:

“The primary purpose of this Bill is to renew the *Armed Forces Act 2006*... and, in so doing, continue in force the primary legislation governing the armed forces. The Bill also provides for measures to maintain the effectiveness of the service justice system so that it continues to meet the needs of the armed forces and it will further incorporate the Armed Forces Covenant into law.”²

3. Cwblhawyd ail ddarllenid y Bil yn Nhŷ'r Cyffredin ar 8 Chwefror 2021. Cyfnod nesaf y Bil yw'r Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin, ond nid oes dyddiad wedi'i drefnu ar ei gyfer eto.

¹ Bil y Lluoedd Arfog. (Bil 244), Ionawr 2021

² Bil y Lluoedd Arfog (Bil 244), Nodiadau Esboniadol, Ionawr 2021



Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

4. Yn unol â Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2, mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ofynnol oherwydd bod darpariaethau yn y Bil yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu'n dod o fewn ei chymhwysedd.
5. Ar 18 Chwefror 2021, gosododd Hannah Blythyn AS, y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol, Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) gerbron y Senedd³ mewn perthynas â'r Bil.
6. Cytunodd y Pwyllgor Busnes⁴ y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (y Pwyllgor) gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 25 Mawrth 2021.

Darpariaeth y mae angen cydsyniad y Senedd ar ei chyfer

7. Fel yr amlinellwyd ym mharagraffau chwech i 10 o'r Memorandwm, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 8 o'r Bil.
8. Mae cymal 8 yn gwneud darpariaethau sy'n ymwneud â Chyfamod y Lluoedd Arfog drwy ddiwygio Rhan 16A o *Ddeddf y Lluoedd Arfog 2006* ("Deddf 2006"). Mae Cymal 8 yn mewnosod adrannau newydd 343AA i 343AF i Ran 16A o Ddeddf 2006. Mae'r adrannau newydd hyn yn gosod dyletswydd ar gyrff ac unigolion penodedig sy'n arfer swyddogaethau tai, addysg a gofal iechyd perthnasol yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon i roi sylw dyledus i Gyfamod y Lluoedd Arfog.
9. Fel yr amlinellir ym mharagraff wyth o'r Memorandwm, mae'r adrannau perthnasol sy'n cael eu mewnosod yn Neddf 2006 gan gymal 8 o'r Bil, i'r graddau y maent yn berthnasol i Gymru, fel a ganlyn.

Adran 343AB

1. Mae is-adran (1) adran 343AB yn gosod dyletswydd ar bersonau a chyrrff penodedig yng Nghymru sy'n arfer swyddogaeth berthnasol i roi sylw dyledus i egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog, sef:

³ Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Bil y Lluoedd Arfog](#), Chwefror 2021

⁴ Y Pwyllgor Busnes, [Yr amserlen ar gyfer trafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer Bil y Lluoedd Arfog](#), Chwefror 2021

- y rhwymedigaethau a'r aberth unigryw a wneir gan y Lluoedd Arfog,
 - yr egwyddor ei bod yn ddymunol dileu anfanteision o Wasanaeth yn y Lluoedd Arfog, neu gyn Wasanaeth yn y Lluoedd Arfog, ac
 - yr egwyddor y gellir cyfiawnhau darpariaeth arbennig oherwydd yr effaith y gallai Gwasanaeth yn y Lluoedd fod wedi'i chael ar unigolion.
- 2.** Mae is-adran (2) o adran 343AB yn diffinio swyddogaeth berthnasol fel swyddogaeth tai, addysg neu ofal iechyd berthnasol. Mae'r rhain yn feysydd polisi sydd wedi'u datganoli. Nodir ystyr y swyddogaethau hyn yn is-adrannau (4) i (6), gan gyfeirio at y ddeddfwriaeth berthnasol. Y cyrff cyhoeddus yng Nghymru y bydd y ddyletswydd sylw dyledus yn gymwys iddynt yw awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Iechyd Arbennig ac Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Rhestrir y cyrff hyn yn is-adran (3).

Adran 343AE

- 3.** Mae Adran 343AE yn darparu y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi canllawiau mewn perthynas â'r ddyletswydd sylw dyledus a rhaid i'r cyrff cyhoeddus perthnasol roi sylw i'r canllawiau hynny. Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn cyhoeddi canllawiau i'r graddau y mae'r canllawiau'n ymwneud â swyddogaethau datganoledig Cymru. Fodd bynnag, mae adran newydd 343AE(5) yn darparu, os yw'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod y diwygiadau i'r canllawiau yn ansylweddol, fod gan yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer i gyhoeddi canllawiau diwygiedig heb ymgynghori â Gweinidogion Cymru i ddechrau.

Adran 343AF

- 4.** Mae adran 343AF yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i estyn y ddyletswydd sylw dyledus i bersonau a chyrrff ychwanegol yng Nghymru, neu i bennu swyddogaethau perthnasol ychwanegol sydd i ddod o fewn cwmpas y ddyletswydd. Cyn gwneud rheoliadau o'r fath, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru, i'r graddau bod y rheoliadau'n cynnwys darpariaethau sydd o fewn 'cymhwysedd datganoledig Cymru'. Diffinnir hyn fel darpariaeth a fyddai'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y

Senedd neu'n un y gellid ei gwneud mewn is-ddeddfwriaeth gan Weinidogion Cymru sy'n gweithredu ar eu pennau eu hunain. Bydd y rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

10. Mae paragraff 9 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi:

“Gofynnir am gydsyniad ar gyfer y darpariaethau hyn oherwydd bod eu diben yn ymwneud â'r modd y mae gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn cyflawni eu swyddogaethau. Maent yn gosod swyddogaethau ar nifer o Awdurdodau Datganoledig Cymru ac maent yn rhoi sylw i faterion datganoledig ac yn effeithio arnynt (h.y. swyddogaethau cyrff cyhoeddus sy'n arfer swyddogaethau datganoledig ym meysydd datganoledig tai, addysg a gofal iechyd). At hynny, gallai pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau yn Adran 343AF arwain at roi'r ddyletswydd sylw dyledus mewn meysydd mwy datganoledig, neu i Awdurdodau Datganoledig eraill yng Nghymru. Yn unol â hynny, mae gan y pŵer hwn botensial i effeithio ar fwy o feysydd datganoledig.”

11. Mae paragraffau 11 i 15 o'r Memorandwm yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil. Mae'r Memorandwm yn nodi:

“Bydd y darpariaethau a fewnosodir gan Gymal 8 o'r Bil yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ym meysydd datganoledig tai, addysg a gofal iechyd yng Nghymru.

Felly, mae'n rhesymol defnyddio Bil y DU i wneud y darpariaethau hyn, gan sicrhau lefel o gysondeb ledled y DU o ran gweithredu'r Cyfamod, tra'n parhau i ganiatáu i wasanaethau a darpariaeth ddatganoledig weithredu polisi ychwanegol i gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog.”⁵

12. Daw'r Memorandwm i ben gyda chadarnhad bod y Dirprwy Weinidog o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn oherwydd:

- “Bydd yn gwella'r modd y darperir gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol mewn perthynas â Chymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru a ledled y DU.

⁵ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Bil y Lluoedd Arfog, paragraffau 14 ac 15

- Bydd yn caniatáu i ddarpariaethau ddod i rym ar yr un pryd ledled y DU.
- Bil ar gyfer y DU gyfan yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf effeithiol a chymesur ar gyfer codi ymwybyddiaeth ymhlith darparwyr gwasanaethau a llunwyr polisi o'r rhwymedigaethau a'r amgylchiadau unigryw sy'n wynebu Cymuned y Lluoedd Arfog.
- Bydd yn meithrin dealltwriaeth o sut y gall yr amgylchiadau sy'n wynebu cymuned y Lluoedd Arfog effeithio ar eu gofynion o ran gwasanaethau cyhoeddus allweddol a'u gallu i gael gafael arnynt.
- Mae'r darpariaethau'n ymdrin â materion datganoledig yn ogystal â materion nad ydynt wedi'u datganoli."⁶

2. Trafodaeth y Pwyllgor

13. Trafodwyd y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 8 Mawrth 2021.⁷

Ein barn ni

14. Nodwn asesiad Llywodraeth Cymru fod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 8 o'r Bil, fel y nodir yn y Memorandwm. Rydym hefyd yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru pam y mae'n credu ei bod yn briodol gwneud darpariaeth i Gymru yn y Bil.

15. Rydym hefyd yn nodi, wrth wneud y ddarpariaeth hon ar gyfer Cymru yn y Bil, y caniateir i'r Ysgrifennydd Gwladol:

- gyhoeddi canllawiau mewn perthynas â'r ddyletswydd sylw dyledus i gyrff cyhoeddus perthnasol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, a Byrddau Iechyd Lleol, ar ôl ymgynghori â Gweinidogion Cymru;
- cyhoeddi canllawiau diwygiedig heb ymgynghori â Gweinidogion Cymru os yw'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod y diwygiadau'n rhai ansylweddol;

⁶ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Bil y Lluoedd Arfog, paragraff 17

⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, **8 Mawrth 2021**.

- gwneud rheoliadau a fydd yn ymestyn y ddyletswydd sylw dyledus i bersonau a chyrrff ychwanegol yng Nghymru, i'r graddau bod y rheoliadau'n cynnwys darpariaethau sydd o fewn 'cymhwysedd datganoledig Cymru', ar ôl ymgynghori â Gweinidogion Cymru;
- gwneud rheoliadau a fydd yn pennu swyddogaethau perthnasol ychwanegol a fydd yn dod o dan y ddyletswydd sylw dyledus, i'r graddau bod y rheoliadau'n cynnwys darpariaethau sydd o fewn 'cymhwysedd datganoledig Cymru', ar ôl ymgynghori â Gweinidogion Cymru.

16. O ran y ddau bwynt olaf yn y paragraff uchod, rydym hefyd wedi rhoi sylw i farn Llywodraeth Cymru y gallai pŵer gwneud rheoliadau newydd yr Ysgrifennydd Gwladol (a ddarperir gan adran 343AF newydd) arwain at roi dyletswyddau sylw dyledus mewn mwy o feysydd datganoledig, neu ar awdurdodau datganoledig eraill yng Nghymru.

17. Gan fod adran newydd 343AF (fel y mae wedi'i drafftio ar hyn o bryd) yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol ddiwygio adran newydd 343AB (h.y. wyneb y Bil) drwy reoliadau, nodwn y byddai unrhyw reoliadau o'r fath yn cychwyn Rheol Sefydlog 30A, sy'n golygu y byddai gofyn i Aelod o Lywodraeth Cymru osod memorandwm cydsyniad offeryn statudol gerbron y Senedd.

18. Yn ein barn ni, o ystyried faint y mae'r Bil yn cynnig galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i weithredu mewn meysydd datganoledig allweddol, rydym yn credu y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn cyhoeddi canllawiau (neu gyhoeddi canllawiau diwygiedig) a chyn gwneud rheoliadau (fel y nodir uchod ym mharagraff 15).

Recommendation 1. Dylai'r Dirprwy Weinidog fynd ar drywydd gwelliannau i'r Bil fel bod gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn cyhoeddi neu ddiwygio canllawiau o dan adran newydd 343AE a chyn gwneud rheoliadau o dan adran newydd 343AF (fel y mewnosodir gan gymal 8 y Bil).

19. Yn olaf, yn ein hadroddiad diweddar ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2) ar Fil yr Amgylchedd⁸, gwnaethom nodi pwynt cyfansoddiadol pwysig, fel a ganlyn.

⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru \(Memorandwm Rhif 2\) ar Fil yr Amgylchedd](#), Chwefror 2021

20. Mae Bil Llywodraeth Cymru nad yw wedi cael ei basio ar ddiwedd Senedd yn cwmpo. Fodd bynnag, ymddengys bod ein Rheolau Sefydlog yn dawel o ran yr hyn sy'n digwydd i Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n ymwneud â Biliau'r DU nad ydynt wedi'u pasio yn Senedd y DU cyn diwedd Senedd.

21. Rydym yn yn ailadrodd y farn a fynegwyd gennym yn yr adroddiad diweddar hwnnw. Fel mater o egwyddor, pe bai Llywodraeth newydd Cymru yn dewis parhau i geisio cydsyniad y Senedd ar gyfer darpariaethau ym Mil y DU nad yw wedi'i basio yn Senedd y DU cyn etholiad cyffredinol y Senedd, credwn y byddai'n briodol i Lywodraeth newydd Cymru gyflwyno memorandwm cydsyniad deddfwriaethol newydd sy'n cwmpasu'r holl ddarpariaethau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer. Byddai'r dull hwn yn galluogi holl Aelodau'r Chweched Senedd a phwyllgorau perthnasol, ar ôl eu sefydlu, i ystyried cydsyniad o'r newydd a dod i benderfyniad gwybodus yn seiliedig ar yr holl wybodaeth berthnasol.